



Elin Jones AC, Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AM, Presiding Officer

National Assembly for Wales

Bernard Jenkin MP

Cadeirydd, Y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol
Tŷ'r Cyffredin

Llundain

SW1A 0AA

28 Tachwedd 2017

Annwyl Mr Jenkin,

Ymchwiliad i ddatganoli ac ymadael â'r UE

Nodais gyda diddordeb eich Ymchwiliad i Ddatganoli ac Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae hwn yn faes allweddol i seneddau'r Deyrnas Unedig wrth inni ystyried sut i roi trefniadau newydd ar waith yn dilyn ein hymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd.

Mae Pwyllgor Materion Allanol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi llunio nifer o adroddiadau perthnasol ar oblygiadau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd i Gymru a deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r broses hon. Rwy'n siŵr y byddant o ddiddordeb i'ch Pwyllgor.

Hoffwn, yn benodol, fynd i'r afael â'r pedwerydd maes yr oeddech yn holi yn ei gylch: Sut y gall y pedair Llywodraeth a Senedd yn y DU hybu dealltwriaeth ac ymddiriedaeth ehangach a dyfnach yn eu perthynas?

Mae ein Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (CLA) wedi bod yn cynnal ei ymchwiliad ei hun i gysylltiadau rhyng-sefydliadol, sef ymchwiliad o'r enw Llais Cryfach i Gymru. Disgwyliaf y bydd yr adroddiad hwn, pan gyhoeddir ef, yn ddefnyddiol ar gyfer ymchwiliad eich Pwyllgor. Cyflwynais fy nhystiolaeth i ar gyfer yr ymchwiliad hwn ar 3 Gorffennaf. Mae'r trawsgrifiad ar gyfer y cyfarfod hwn ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

Roedd y pwyntiau allweddol a wnes fel a ganlyn:

Cysylltiadau rhyngseneddol

1. Mae rhagor o gydweithredu rhwng y Cynulliad a sefydliadau eraill, ac mae'n parhau i gynyddu. Pan gynhaliwyd gwaith craffu ar y cyd, cafwyd croeso iddo.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

National Assembly for Wales

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

www.assembly.wales

0300 200 7403



2. Bydd yr angen am drefniadau rhyngseneddol mwy ffurfiol yn dibynnu ar esblygiad y trefniadau rhynglywodraethol.

Cysylltiadau rhynglywodraethol

3. Rhaid i unrhyw drefniadau newydd lle mae llywodraethau'n gwneud penderfyniadau ar y cyd (er enghraifft drwy Gyngor y Gweinidogion a gynigiwyd gan Brif Weinidog Cymru), fod yn seiliedig ar egwyddorion clir o ran sybsidiaredd, parch cydradd, a thryloywder.

4. Byddai trefniadau o'r fath yn gofyn am oruchwyliaeth rhyng-seneddol newydd a threfniadau cydweithredol er mwyn sicrhau bod deddfwrfeydd y DU yn cynnal gwaith craffu effeithiol.

5. Bydd gwaith craffu effeithiol gan seneddau priodol eu llywodraethau yn gofyn am fwy o dryloywder a mynediad cyfartal at wybodaeth.

Cydsyniad deddfwriaethol

6. Rhaid i weithdrefnau cydsyniad deddfwriaethol fod yn addas at y diben, rhaid gallu eu gorfodi o dan y gyfraith, a rhaid i San Steffan roi statws cydradd iddynt yng nghyd-destun holl wledydd y DU.

7. Ar hyn o bryd, gallai Llywodraeth y DU ddiystyru'r broses, er enghraifft o safbwynt deddfwriaeth sy'n ymwneud â gadael yr UE. Cyflwynwyd dadleuon cryf wrth graffu ar Fil Cymru ar gyfer yr achos dros ei gwneud yn broses gadarn.

8. Mae cwrmpas y trefniadau cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â phob un o'r gwledydd datganoledig yn wahanol; dylai gael ei gymhwyso'n gyson.

9. Mae angen i weithdrefnau Senedd y DU roi mwy o dryloywder ynghylch a yw'r Cynulliad wedi cydsynio ai peidio, a pharchu penderfyniadau'r Cynulliad o ran pob deddfwriaeth, gan gynnwys is-ddeddfwriaeth. Yn fy natganiad llafar gerbron Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad, codais y cwestiwn, a ddylid cynnal pleidlais yn Nhŷ'r Cyffredin os na roddwyd caniatâd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar unrhyw fater penodol.

10. Dylai deddfwrfeydd y DU, ac nid dim ond y llywodraethau datganoledig, gytuno ar unrhyw gynnig i rannu pwerau yn y meysydd ble y datganolwyd cymhwysedd ar ôl ymadael â'r UE.

Gweithio ar y cyd ar lefel pwyllgorau

11. Mae cydweithredu a chydweithio sylweddol yn digwydd rhwng pwyllgorau'r Cynulliad a seneddau eraill. Mae'r rhan fwyaf ohono yn gymharol anffurfiol.

12. Cynhaliwyd rhywfaint o waith craffu ar y cyd ac mae wedi gweithio'n dda.



Elin Jones AC, Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AM, Presiding Officer

National Assembly for Wales

13. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal rhwng swyddogion y pwyllgorau a'u cymheiriaid mewn deddfwrfeydd eraill ynghylch sut i wella trefniadau gweithio ar y cyd mewn meysydd allweddol e.e. gadael yr UE.

14. Dylai pwyllgorau sy'n ymdrin â phynciau penodol ddod at ei gilydd e.e. pwyllgorau amgylcheddol, yn enwedig os bydd fframweithiau polisi cyffredin ar gyfer y DU yn dod i'r amlwg yn sgîl gadael yr UE.

15. Mae'r ffactorau a allai rwystro rhagor o gyswllt rhyngseneddol yn cynnwys problemau ymarferol cynnal cyfarfodydd ychwanegol, y ffaith fod uchelgeisiau cyfansoddiadol gwahanol wledydd y DU yn mynd i wahanol gyfeiriadau, a Rheolau Sefydlog Tŷ'r Cyffredin. Byddwn i'n cefnogi newid i Reolau Sefydlog Tŷ'r Cyffredin i hwyluso cydweithio ffurfiol mewn pwyllgorau. Mae'n bositif nodi, ers i mi roi tystiolaeth i'r ymchwiliad, cynhaliwyd y Fforwm Rhyng-Seneddol cyntaf ar Brexit ar 12 Hydref 2017 ac roedd Cadeiryddion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn bresennol. Cyhoeddwyd datganiad ar ôl y cyfarfod.

16. Rwyf hefyd yn nodi bod "datganiad ar egwyddorion" y Cydbwyllgor Gweinidogol (Negodiadau Ewropeaidd) ar 16 Hydref, ar gyfer arwain trafodaethau ynghylch unrhyw fframweithiau cyffredin posibl yn y Deyrnas Unedig neu Brydain Fawr ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn cynnwys ymrwymiad y bydd "fframweithiau'n parchu setliadau datganoli ac atebolrwydd democrataidd y deddfwrfeydd datganoledig."

Mae'n amlwg bod y sefyllfa gyfansoddiadol yn y DU yn newid ac mae angen i bwrpas a natur ein trefniadau rhyng-sefydliadol adlewyrchu hynny, yn arbennig yng nghyd-destun ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Hyderaf fod hyn o gymorth ac edrychaf ymlaen at ddarllen eich adroddiad maes o law.

Yn gywir,

Elin Jones AC

Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

National Assembly for Wales

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

www.assembly.wales

0300 200 7403